

# Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?

## Awduron

Laura North  
Ashley Akbari  
Laura Cowley  
Bachar Alrouh  
Claire Hargreaves  
Linda Cusworth  
Karen Broadhurst  
Ian Farr  
Steffi Doebler  
Mariam Abouelenin  
Jon Smart

# Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio methodoleg cysylltu data newydd i ddadansoddi amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

## Awduron

Dr Laura North, Prifysgol Abertawe

Ashley Akbari, Prifysgol Abertawe

Dr Laura Cowley, Prifysgol Abertawe

Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Claire Hargreaves, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn

Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Ian Farr, Prifysgol Abertawe

Dr Steffi Doebler, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Mariam Abouelenin, Prifysgol Caerhirfryn

Jon Smart, Prifysgol Abertawe

Yr Athro David Ford, Prifysgol Abertawe

Dr Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe

## Cyfeiriad argymelledig

North, L. et al. (2022). *Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

<https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/what-do-we-know-about-ethnicity-in-the-family-justice-system-in-wales>

Mae crynodeb o'r adroddiad hwn ar gael drwy'r ddolen uchod.

## Ymwadiad

Ariannwyd y prosiect hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad, o reidrwydd.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2022

100 St John Street, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601

nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau eraill o'r tîm sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, gan gynnwys yr Athro Simon Thompson a'r Athro Kerina Jones.

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu cymorth â'r prosiect: Lisa Harker (Cyfarwyddwr), Jude Eyre (Cyfarwyddwr Cysylltiol, Strategaeth a Chyflawni), Alice Roe (Ymchwilydd) a Jordan Rehill (Ymchwilydd), Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield; a chydweithwyr yn Cafcass Cymru, Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru a Llywodraeth Cymru. Hoffem ddiolch hefyd i raglen gydweithredu Cymru'n Un, a arweiniodd y gwaith o ddatblygu'r dull cysylltu data ar ethnigrwydd, a ariannwyd ac a gefnogwyd gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (MR/VO28367/1), Ymchwil Data Iechyd y DU (HDR-9006) ac ADR (ES/S007393/1).



Population Data Science  
at Swansea University



# Cynnwys

Crynodeb gweithredol.....	i
Cyflwyniad.....	2
Methodoleg.....	3
Pa mor gyflawn yw'r data ar ethnigrwydd?.....	6
Beth yw ethnigrwydd unigolion yn y system?.....	8
Sut mae amrywiaeth ethnig unigolion yn y system cyfiawnder teuluol yn cymharu â'r boblogaeth gyffredinol?.....	10
Casgliad.....	13
Cyfeiriadau.....	15
Atodiad A.....	17

# Crynodeb gweithredol

Amcanion yr astudiaeth hon gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – oedd:

- llunio trosolwg o amrywiaeth ethnig plant ac oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru
- ystyried, yn erbyn y darlun cenedlaethol, a yw grwpiau ethnig penodol yn cael eu tangynrychioli neu eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru
- pennu argymhellion yn ymwneud â chasglu a dadansoddi data.

## Ynglŷn â'r data

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddata dienw ar lefel unigolion ar raddfa'r boblogaeth ar blant ac oedolion a oedd yn rhan o achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020.

Roedd carfan Cafcass Cymru yn cynnwys tua 122,500 o gofnodion:

- 14,000 o blant a 19,500 o oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus
- 37,000 o blant a 52,000 o oedolion mewn achosion cyfraith breifat.

Daw'r amcangyfrifon ethnigrwydd cenedlaethol o gyfrifiad 2011 sydd ar gael yn gyhoeddus ac ystadegau arbrolfol ethnigrwydd 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r adroddiad yn defnyddio'r un 5 categori grwpiau ethnig ('lefel uchel') ag ONS a chyfrifiad 2011.<sup>1</sup>

Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn ddisgrifiadol a dylid eu trin yn ddadansoddiadau rhagarweiniol.

## Pa mor gyflawn yw'r data ar ethnigrwydd?

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd gwybodaeth am ethnigrwydd sy'n cael ei chasglu'n rheolaidd gan Cafcass Cymru – sef y sefydliad sy'n cynghori'r llysoedd teulu yng Nghymru yn annibynnol ar les pennaf plant – fel rhan o'i ddata rheoli achosion.
  - Mae cynnal ac adolygu ansawdd data ar ethnigrwydd a nodweddion unigol eraill (fel iaith, crefydd, anabledd, ffactorau risg yr aelwyd, rhywioldeb a

<sup>1</sup> Y pum grŵp ethnig lefel uchel yw: Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig; grwpiau Cymysg neu aml-ethnig; Gwyn; a grŵp ethnig Arall (ONS 2021).

hunaniaeth rhywedd) yn hollbwysig i ddeall yn well proffiliau ac anghenion y rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol.

- Yn niffyg data rheoli achosion cynhwysfawr ar ethnigrwydd dros y cyfnod (2011/12 hyd 2019/20), defnyddiodd y tîm ymchwil fethodoleg cysylltu data newydd – gan gysylltu sawl ffynhonnell ddata sy'n cofnodi ethnigrwydd ac sydd ar gael ym Manc Data SAIL, fel derbyniadau ysbyty, a data cyfrifiad 2011 – i ddatdrosodi ethnigrwydd yn y system.
- Wrth ddefnyddio'r dull cysylltu data fesul blwyddyn ariannol yn ôl y math o gyfraith ac oedran, mae cwmpas ethnigrwydd yn parhau uwchlaw 90% ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat i oedolion a phlant yng Nghymru.

## Beth yw ethnigrwydd pobl yn y system cyfiawnder teuluol?

- At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o oedolion a phlant yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru – boed hynny'n gyfraith gyhoeddus neu breifat – yn Wyn (tua 95%). Mae cyfran ychydig yn uwch o oedolion wedi'u cofnodi'n Wyn na phlant.
- Mae'r ail gyfran fwyaf o unigolion wedi'u cofnodi mewn grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, sydd â chyfran ychydig yn uwch o blant nag oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Mae unigolion yn y grwpiau Arall, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, a Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig gyda'i gilydd yn cyfrif am rhwng 2% a 3% o blant ac oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.

## Sut mae amrywiaeth ethnig plant ac oedolion yn y system cyfiawnder teuluol yn cymharu â'r boblogaeth gyffredinol?

- Roedd cyfran fwyaf yr unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn Wyn (95%), sy'n gyfwerth â'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol.
- Roedd y grŵp ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig a'r grŵp ethnig Arall mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn adlewyrchu'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol.
- O gymharu â'r proffil cenedlaethol, mae unigolion yn y grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig wedi'u tangynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (1.3% ac 1.5% yn ôl eu trefn, o gymharu â 2.4% yn y boblogaeth gyffredinol).
- Mae hyn yn cyferbynnu â'r rhai yn y grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, sy'n cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, lle'r oedd cyfran yr unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn 1.5% ac 1.9% yn ôl eu trefn, o gymharu â 0.9% yn y boblogaeth gyffredinol.

## Casgliad

- Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y system cyfiawnder teuluol yn gweithio â phoblogaeth amrywiol o deuluoedd yng Nghymru, mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o oedolion a phlant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfiawnder teuluol yn Wyn, sy'n adlewyrchu ethnigrwydd y boblogaeth ledled Cymru.
- O ystyried y llenyddiaeth a'r dadansoddiadau cyfyngedig hyd yn hyn, mae angen gwneud mwy i gadarnhau'r canfyddiadau hyn a chydabod, deall ac ymateb i anghenion pob grŵp ethnig yn y system cyfiawnder teuluol.

# Cysyniadau allweddol

## Cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat

Mae cyfiawnder teuluol, sy'n ymdrin â materion cyhoeddus a phreifat, yn ymwneud â'r gyfraith mewn perthynas â phlant a theuluoedd. Wedi'u tanategu gan egwyddorion Deddf Plant 1989, eir i'r afael ag achosion cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat yn y llys teulu, sy'n gweithredu fframwaith gweinyddol cyffredin ar gyfer pob achos yn y llysoedd teulu. Mae Cafcass Cymru yn rhoi cyngor annibynnol i'r llysoedd teulu yng Nghymru er lles pennaf plant.

- Mae achosion cyfraith gyhoeddus – sef achosion gofal yn bennaf – yn cael eu cychwyn gan awdurdod lleol pan yr ystyrir bod plant mewn perygl o niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol (i gael rhagor o fanylion am achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru, gweler Alrouh et al. 2019).
- Mae achosion plant cyfraith breifat yn ymwneud ag anghytundebau neu anghydfodau – rhwng rhieni ar ôl i'r berthynas chwalu, fel arfer – yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer magu plentyn, fel ble dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai ei weld (i gael rhagor o wybodaeth am achosion cyfraith breifat yng Nghymru, gweler Cusworth et al. 2020).

## Deall ethnigrwydd – heriau cysyniadol a dadansoddol

Mae cysyniadau ethnigrwydd yn oddrychol, yn amlweddog ac mae iddynt natur gyfnewidiol (ONS 2022, 21 Ebrill). Mae aelodaeth grŵp ethnig yn hunanddiffiniedig ac yn oddrychol i'r unigolyn, yn gysylltiedig â llinach gyffredin ac elfennau o genedligrwydd, hanes, diwylliant, crefydd, iaith a golwg gorfforol (Brown a Langer 2010; Connelly et al. 2016; Platt 2007).

Mae'n bwysig cofio'r cymhlethdod a'r duedd bosibl wrth gofnodi a dehongli data sy'n ymwneud ag ethnigrwydd. Er bod y rhai sy'n llunio ac yn defnyddio systemau gwybodaeth yn ymdrechu i gyflawni gwrthrychedd drwy ddatblygu categorïau safonol, mae amrywiadau yn y modd y mae pobl yn cofnodi neu'n hunangofnodi data ar ethnigrwydd.

Ar ben hynny, gall yr her o ddiffinio ethnigrwydd unigolyn yn fanwl gywir arwain at lefelau trafferthus o ddata coll (Broadhurst et al. 2021). Nid yw'r heriau hyn yn benodol i Cafcass Cymru ond, yn hytrach, maent yn wir ar gyfer y rhan fwyaf o systemau cofnodi.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r un 5 categori grwpiau ethnig lefel uchel a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr – sef Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig; grwpiau Cymysg neu aml-ethnig; Gwyn; a grŵp ethnig Arall.



# Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae data cyfyngedig yn ymwneud ag ethnigrwydd plant a theuluoedd sy'n ymddangos mewn achosion llys cyfiawnder teuluol (Rehill a Roe 2022). Fel rhan o ffocws Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield ar wella llesiant plant a theuluoedd yn y system cyfiawnder teuluol, mae angen deall yn well yr amrywiaeth ethnig a'r strategaethau a all leihau anghydraddoldebau. I wneud hyn, mae angen data cenedlaethol arnom ar ethnigrwydd plant ac oedolion. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (sy'n cael ei alw'n Cafcass Cymru a Cafcass, yn y drefn honno) yn cynrychioli plant mewn achosion plant cyfraith gyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y llysoedd er lles pennaf y plentyn. Mae'r sefydliadau hyn yn casglu ac yn cynnal data gweinyddol ar bob achos cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat. Tra mae Cafcass Lloegr wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wella'r modd y caiff data ar ethnigrwydd ei gofnodi er mis Ebrill 2016 (Alrouh et al. 2022), dim ond yn ddiweddar y mae Cafcass Cymru wedi dechrau casglu'r wybodaeth honno, felly mae cofnodion yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Archwiliodd ymchwil ddiweddar gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol ansawdd a chyflawnrwydd data ar ethnigrwydd a gofnodwyd gan Cafcass Lloegr ac amrywiaeth ethnig plant ac oedolion yn y system cyfiawnder teuluol, a sut mae hyn yn cymharu â'r darlun cenedlaethol (Alrouh et al. 2022). Datgelodd y dadansoddiad, er bod cofnodi ethnigrwydd wedi gwella'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyfran yr unigolion sydd â data ethnigrwydd coll yn uchel. Yn 2018/19, roedd data ar ethnigrwydd ar goll ar gyfer 14% ac 20% o blant ac oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus sy'n cynnwys plant, a 6% ac 11% o blant ac oedolion mewn achosion cyfraith breifat. Yn ogystal, canfu'r ymchwil fod mwyafrif yr oedolion a phlant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfiawnder teuluol yn Lloegr yn Wyn, mewn cyfraith gyhoeddus a phreifat, a bod amrywiadau rhanbarthol o ran amrywiaeth ethnig oedolion a phlant mewn achosion cyfiawnder teuluol. Roedd unigolion yn y grwpiau ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig; Cymysg neu aml-ethnig; ac Arall, wedi'u gorgynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat, ac roedd cyfraddau uwch o achosion cyfraith breifat ymhlith teuluoedd Asiaidd o gymharu ag achosion cyfraith gyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y canfyddiadau hyn. Oherwydd y data cyfyngedig ar ethnigrwydd sy'n cael ei gofnodi gan Cafcass Cymru ar hyn o bryd, caiff dulliau cysylltu data eu defnyddio i ddisgrifio amrywiaeth ethnig plant ac oedolion yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Yr amcanion yw:

- rhoi trosolwg o amrywiaeth ethnig plant ac oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru
- ystyried, yn erbyn y darlun cenedlaethol, a yw grwpiau ethnig penodol yn cael eu tangynrychioli neu eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru
- pennu argymhellion yn ymwneud â chasglu a dadansoddi data.

Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?

# Methodoleg

Mae data gweinyddol a gesglir ac a gynhelir gan Cafcass Cymru yn cael ei gadw ym Manc Data Cysylltu Gwybodaeth Ddienw Diogel (SAIL) sy'n gwarchod preifatrwydd (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014, 2019). Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddata dienw ar lefel unigolion ar raddfa'r boblogaeth ar blant ac oedolion a oedd yn rhan o achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 (gweler Johnson et al. 2020 am fwy o wybodaeth am ddata Cafcass Cymru).<sup>2</sup> Gan nad yw'r cofnodion electronig ar gyfer ymchwil cyfraith gyhoeddus o ansawdd digonol cyn 2011, cyfyngwyd y dadansoddiad ar gyfer y ddau fath o'r gyfraith i'r cyfnod o 2011/12 hyd 2019/20.

Roedd carfan Cafcass Cymru yn cynnwys tua 122,500 o gofnodion:

- 14,000 o blant a 19,500 o oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus
- 37,000 o blant a 52,000 o oedolion mewn achosion cyfraith breifat.<sup>3</sup>

Gweler Table A.2 yn yr atodiad am ragor o fanylion.

Defnyddiwyd dull cysylltu data i archwilio ethnigrwydd unigolion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Cafwyd newidyn ethnigrwydd ar lefel unigolion dan ddefnyddio sawl ffynhonnell ddata sy'n cofnodi ethnigrwydd ac sydd ar gael ym Manc Data SAIL. Roedd y ffynonellau data a ddefnyddiwyd i greu'r newidyn ar gyfer y dadansoddiad hwn yn cynnwys ystod o gofnodion iechyd (fel derbyniadau ysbyty a chofnodion meddygon teulu) a data cyfrifiad 2011.<sup>4</sup> Cysonwyd y ffynonellau data hyn a'u trawsnewid yn newidyn ethnigrwydd ar sail y dyddiad diweddaraf y datganwyd ethnigrwydd mewn unrhyw ffynhonnell data, a'i gysylltu â charfan Cafcass Cymru.

Defnyddiwyd amcangyfrifon ethnigrwydd cenedlaethol o gyfrifiad 2011 sydd ar gael yn gyhoeddus ac ystadegau arbrofol ethnigrwydd 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i gymharu â dosbarthiadau ethnigrwydd cenedlaethol. Er mwyn hwyluso cymaroldeb a dyblygiad (Connelly et al. 2016), defnyddiwyd categorïau ethnigrwydd 5 grŵp ONS, sef Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig; grwpiau Cymysg neu aml-ethnig; Gwyn; a grŵp ethnig Arall.

Gan ddefnyddio'r dull cysylltu data, archwiliom gyfran y plant a'r oedolion a oedd yn gysylltiedig â Cafcass Cymru sydd â chofnod ethnigrwydd yn ôl y math o gyfraith ym mhob blwyddyn ariannol, gan ddefnyddio'r dyddiad yr agorwyd achos yr unigolyn yn

<sup>2</sup> Naill ai fel ymgeisydd, ymatebydd, testun neu arall.

<sup>3</sup> Diffiniwyd y math o gyfraith ar lefel yr achos.

<sup>4</sup> Mae ffynonellau data'n cynnwys: cofrestr anomaleddau cynhenid (CARS), gofal critigol (CCDS), adrannau brys (EDDS), dangosyddion mamolaeth (MIDS), iechyd plant cymunedol cenedlaethol (NCOH), cleifion mewnol ysbytai (PEDW), camddefnyddio sylweddau (SMDS), gofal sylfaenol (WLGP) a data cyfrifiad 2011 (CENW) ONS.

gyntaf. Cyfrannodd pob plentyn ac oedolyn unwaith yn unig at eu cyfanswm priodol ar gyfer unrhyw flwyddyn, heb ystyried unrhyw gysylltiad ag achosion ychwanegol yn yr un flwyddyn.

Yna, archwiliom ethnigrwydd plant ac oedolion a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat fesul blwyddyn ariannol. Trwy fod yn ymwybodol y gallai fod tuedd bosibl mewn data coll ar gyfer grwpiau ethnig penodol (McGrath-Lone et al. 2021), mae'r rhai heb gofnod ethnigrwydd wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn.

Yn olaf, gan ddefnyddio ffigurau ethnigrwydd a gymerwyd o gyfrifiad 2011 ac ystadegau arbrofol 2019 ONS, archwiliom gynrychiolaeth grwpiau ethnig gwahanol mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat ar gyfer y tair blynedd o 2017/2018 hyd 2019/20 (yr un cyfnod â'r chwaer-adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar amrywiaeth ethnig yn Lloegr), a chymharu hyn â'r darlun cenedlaethol.<sup>5,6</sup>

Cyfrifwyd cyfraddau a'u mynegi fel nifer yr unigolion o bob grŵp ethnig a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu fesul 10,000 yn y grŵp hwnnw yn y boblogaeth gyffredinol.

## Cryfderau a chyfyngiadau

Hyd y gwyddom, dyma'r tro cyntaf i ethnigrwydd y rhai sy'n gysylltiedig â Cafcass Cymru gael ei archwilio. O ystyried y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am ethnigrwydd yn Cafcass Cymru ar hyn o bryd, rydym wedi defnyddio dull cysylltu data i bennu ethnigrwydd cyfran uchel o blant ac oedolion sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Fodd bynnag, cydnabyddwn y cyfyngiadau canlynol.

- Mae astudiaethau ar sail data gweinyddol wedi'u cyfyngu, o reidrwydd, gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag ymchwil yn bennaf.
- Mae cofnodi ethnigrwydd gan ddefnyddio'r dull cysylltu data yn dibynnu ar yr unigolyn yn ymddangos mewn o leiaf un o'r ffynonellau data sy'n casglu (ac yn cofnodi'n weithredol) ethnigrwydd. Gallai hyn gyflwyno tuedd o ran data coll.
- Nid oedd modd cynnal dadansoddiad rhanbarthol yn y dadansoddiad hwn oherwydd y niferoedd bach a'r perygl o ddatgelu yng Nghymru.
- O ran amcangyfrifon y boblogaeth, rydym wedi defnyddio ystadegau arbrofol 2019 ONS. Er bod y rhain yn fwy diweddar, down â chyfyngiadau yn eu sgil, gan gynnwys ffigurau sylfaenol wedi'u talgrynnu at gyfer y categorïau ethnig 18 grŵp,

<sup>5</sup> Ym mhrif gorff yr adroddiad, rydym yn cyflwyno cymariaethau gan ddefnyddio ystadegau arbrofol 2019 ONS yn unig. I gael manylion am y cymariaethau â chyfrifiad 2011, gweler Tabl A.6 a Thabl A.7 yn yr atodiad.

<sup>6</sup> I gymharu'r ffigurau ethnigrwydd cenedlaethol sy'n cynnwys plant ac oedolion, cyfunom is-garfannau plant ac oedolion Cafcass Cymru. Yn y garfan gyfunol hon, roedd plentyn neu oedolyn a oedd yn gysylltiedig ag achos a ddechreuodd rhwng 2017/18 a 2019/20 yn cyfrannu unwaith yn unig at yr cyfanswm, heb ystyried unrhyw gysylltiad ag achosion ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw. Lle'r oedd unigolyn yn gysylltiedig â mwy nag un achos yn ystod y cyfnod, cymerwyd y cofnod ethnigrwydd o'r achos cyntaf.


y cyfrifwyd y categorïau ethnig 5 grŵp ohonynt ar gyfer y blynyddoedd dan sylw (am ragor o fanylion, gweler ONS 2021).

- Er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o rôl ethnigrwydd mewn cyfiawnder teuluol, bydd angen archwilio'r data ymhellach a'i reoli ar gyfer ffactorau perthnasol ychwanegol gan gynnwys oed, lleoliad, amddifadedd ar lefel ardal a ffactorau economaidd-gymdeithasol.
- Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn ddisgrifiadol a dylid eu trin yn ddadansoddiadau rhagarweiniol.

# Pa mor gyflawn yw'r data ar ethnigrwydd?

Trwy ddefnyddio'r dull cysylltu data, rydym yn gallu cofnodi ethnigrwydd dros 90% o oedolion a phlant yn y system cyfiawnder teuluol (cyfraith gyhoeddus a phreifat) yng Nghymru (gweler Ffigur 1).

**Ffigur 1: Canran yr unigolion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol sydd â chofnod ethnigrwydd gan ddefnyddio'r dull cysylltu data**



Cofnodwyd ethnigrwydd 95% o oedolion dros y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, bu mân ostyngiad yn y data sydd ar gael i blant dros gyfnod (98% yn 2011/12 i 91% yn 2019/20). Gallai hyd fod o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad yn y cofnodion sydd ar gael sy'n cynnwys ethnigrwydd plant os cawsant eu geni ar ôl casglu cyfrifiad 2011. Mae cofnodion ethnigrwydd mewn cyfraith breifat yn dilyn patrwm tebyg i gyfraith gyhoeddus, gydag ychydig yn llai i oedolion (yn agosach at 90%) a phlant.

Mae cofnodion ethnigrwydd ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru yn gyson â data Cafcass Lloegr (Alrouh et al. 2022). Fodd bynnag, ar gyfer achosion cyfraith breifat, mae'r cofnodion yn uwch ar gyfer oedolion (er enghraifft, yn 2019/20, 91% yng Nghymru o gymharu â 79% yn Lloegr) a phlant (90% yng Nghymru o gymharu ag 84% yn Lloegr).

Mae'r dull cysylltu data'n dibynnu ar amrywiaeth o ffynonellau data'n cipio ac yn cofnodi ethnigrwydd y boblogaeth. Gallai rhai is-grwpiau (er enghraifft grwpiau

rhywedd a grwpiau oedran) fod yn fwy cyffredin mewn rhai o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i gasglu data ar ethnigrwydd, a all ddylanwadu ar gyflawnrwydd data ar ethnigrwydd ar draws y grwpiau hyn. Er enghraifft, mae gan ddynion gyfraddau uwch o ddata ethnigrwydd coll yn gyson. Gallai hyn fod oherwydd bod menywod yn cael mwy o gyfleoedd i gofnodi eu hethnigrwydd ar draws y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn, o bosibl (er enghraifft yn y set ddata dangosyddion mamolaeth).

Mae dadansoddiad llawn o nodweddion demograffig oedolion a phlant yn ôl y math o gyfraith i'w weld yn yr atodiad (Tabl A.2 i Dabl A.5).

# Beth yw ethnigrwydd unigolion yn y system?

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o oedolion a phlant yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru yn Wyn (tua 95%) mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat, fel ei gilydd. Mae cyfran ychydig yn uwch o oedolion wedi'u cofnodi'n Wyn na phlant.


Fel y dangosir yn Ffigur 2, arhosodd cyfran yr oedolion a phlant ym mhob un o'r pum grŵp ethnig yn gyson rhwng 2011/12 a 2019/20 mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Fel y gwelwyd yn yr adran flaenorol, mae cyfran yr unigolion â data coll yn llai na 10%.<sup>7</sup> Mae'r categori coll wedi'i eithrio o'r dadansoddiad yn yr adran hon a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

Mae'r ail gyfran fwyaf o unigolion wedi'u cofnodi mewn grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, sydd â chyfran ychydig yn uwch o blant nag oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Mae unigolion yn y grwpiau Arall, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, a Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig gyda'i gilydd yn cyfrif am rhwng 2% a 3% o blant ac oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.

---

<sup>7</sup> Cyfran y data coll yn 2011/12-2019/20 ar gyfer plant mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat oedd 2.5%-10.0%, 5.0% i oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a 7.0-8.5% i oedolion mewn achosion cyfraith breifat.

**Ffigur 2: Canran yr unigolion ym mhob grŵp ethnig, gan ddefnyddio'r dull cysylltu data**





# Sut mae amrywiaeth ethnig unigolion yn y system cyfiawnder teuluol yn cymharu â'r boblogaeth gyffredinol?

Yn y dadansoddiad hwn, rydym yn ystyried cyfran yr unigolion ym mhob grŵp ethnig mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat a'r boblogaeth gyffredinol (Ffigur 2), a chyfradd yr unigolion ym mhob grŵp ethnig mewn achos cyfraith gyhoeddus neu breifat fesul 10,000 o'r boblogaeth gyffredinol (Ffigur 4) dros y cyfnod o dair blynedd o 2017/18 hyd 2019/20. Dewiswyd y cyfnod hwn i alinio â'r chwaer-adroddiad ar Loegr (Alrouh et al. 2022).<sup>8</sup>

Roedd cyfran fwyaf yr unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn Wyn (95%), a oedd yn gyfwerth â'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol (Ffigur 3). Roedd y grŵp ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig a'r grŵp ethnig Arall mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn adlewyrchu'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol.


O gymharu â'r proffil cenedlaethol, mae unigolion yn y grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig wedi'u tangynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (1.3% ac 1.5% yn ôl eu trefn, o gymharu â 2.4% yn y boblogaeth gyffredinol).

Mae hyn yn cyferbynnu â'r rhai yn y grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, sy'n cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, lle'r oedd cyfran yr unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn 1.5% ac 1.9% yn ôl eu trefn, o gymharu â 0.9% yn y boblogaeth gyffredinol.


---

<sup>8</sup> Am resymau methodolegol, nid ymchwilir i blant ac oedolion ar wahân. Cynhwyswyd oedolyn neu blentyn a oedd yn gysylltiedig ag achos a ddechreuodd rhwng 2017/18 a 2019/20 unwaith yn unig yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigur 3: Ethnigrwydd oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (2017/18 hyd 2019/20) ac yn y boblogaeth gyffredinol (gan ddefnyddio amcangyfrifon 2019 ONS)**



**Ffigur 4: Cyfradd yr oedolion a phlant mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (2017/18 hyd 2019/20) fesul 10,000 o'r boblogaeth gyffredinol (amcangyfrifon 2019 ONS), yn ôl grŵp ethnig**



# Casgliad

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y system cyfiawnder teuluol yn gweithio â phoblogaeth amrywiol o deuluoedd yng Nghymru, mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o oedolion a phlant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfiawnder teuluol yn Wyn (sy'n adlewyrchu ethnigrwydd y boblogaeth ledled Cymru), gyda chyfran ychydig uwch o oedolion wedi'u cofnodi'n Wyn na phlant. Cofnodwyd yr ail gyfran fwyaf o unigolion yn y grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, ac roedd hyn ychydig yn uwch i blant nag oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.

Bu modd llunio rhai dadansoddiadau dros dro yn ymwneud â chynrychioldeb grwpiau ethnig gwahanol mewn achosion cyfiawnder teuluol.

## Cyfraith gyhoeddus

Gwyddom o ymchwil flaenorol bod gorgynrychiolaeth o blant Du, Affricanaidd a Du Caribiaidd mewn gofal, a bod tangynrychiolaeth o blant Asiaidd mewn gofal, o gymharu â'r cyfrannau yn y boblogaeth ehangach yn Lloegr (Bywaters et al. 2017, 2019; Owen a Statham 2009). Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn yn y dadansoddiad o ethnigrwydd oedolion a phlant mewn achosion gofal yn Lloegr (Alrouh et al. 2022): roedd oedolion a phlant o grwpiau ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig, Cymysg neu aml-ethnig a grwpiau ethnig Arall yn cael eu gorgynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus, tra'r oedd oedolion a phlant o deuluoedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn cael eu tangynrychioli.

Canfu ein hastudiaeth ddarlun ychydig yn wahanol i deuluoedd mewn achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru. Nid oedd oedolion a phlant o grwpiau ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig a grwpiau ethnig Arall wedi'u gorgynrychioli - roedd cyfrannau'r oedolion a phlant yn y grwpiau hyn yn debyg i'r cyfrannau yn y boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, roedd oedolion a phlant o grwpiau Cymysg neu aml-ethnig wedi'u gorgynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus, tra'r oedd oedolion a phlant o grwpiau ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig wedi'u tangynrychioli.

## Cyfraith breifat

Yn Lloegr, canfu Alrouh et al. (2022) fod grwpiau ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig, Cymysg neu aml-ethnig ac Arall wedi'u gorgynrychioli mewn achosion cyfraith breifat hefyd. Canfu ein hastudiaeth ni ddarlun gwahanol yng Nghymru: roedd cyfran y grwpiau ethnig Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig ac Arall mewn achosion cyfraith breifat yn adlewyrchu'r gyfran yn y

boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, roedd y rhai o grwpiau Cymysg neu aml-ethnig wedi'u gorgynrychioli mewn achosion cyfraith breifat yng Nghymru.

Canfu Alrouh et al. (2022), er bod teuluoedd Asiaidd wedi'u tangynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn Lloegr, roedd cyfran uwch o deuluoedd Asiaidd mewn achosion cyfraith breifat nag mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod darlun tebyg yng Nghymru: er bod teuluoedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig wedi'u tangynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru, roedd cyfrannau ychydig yn uwch o deuluoedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig mewn achosion cyfraith breifat o gymharu ag achosion cyfraith gyhoeddus.

## Data

O ystyried y llenyddiaeth a'r dadansoddiadau cyfyngedig hyd yn hyn, mae angen gwneud mwy i gadarnhau'r canfyddiadau hyn a chydabod, deall ac ymateb i anghenion pob grŵp ethnig yn y system cyfiawnder teuluol.

Mae'r gwaith hwn yn amlygu methodoleg newydd ar gyfer cysylltu data, a alluogwyd drwy'r casgliad cyfoethog o ffynonellau data sy'n cael eu cadw ym Manc Data SAIL. Mae hwn yn gam mawr ymlaen o ran deall dimensiwn pwysig o amrywiaeth i boblogaeth y plant a'r teuluoedd sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol.

Er bod gwybodaeth am ethnigrwydd yn gyfyngedig yn y data rheoli achosion sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd gan Cafcass Cymru ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd yr ased data cenedlaethol hynod werthfawr hwn. Ochr yn ochr â hyn, mae ystod o wybodaeth arall am amrywiaeth yn cael ei chasglu hefyd, fel iaith, crefydd, anabledd, ffactorau risg yr aelwyd, rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd. Bydd cynnal ac adolygu ansawdd nodweddion ethnigrwydd newydd a nodweddion unigol eraill yn hanfodol os ydym am fod ag amcangyfrifon dibynadwy o gyfrannau a phroffiliau'r poblogaethau sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol.

# Cyfeiriadau

- Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L., Johnson, R., Akbari, A. a Ford, D. (2019). *Mewn gofal o'u geni: babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. <https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-wales>
- Alrouh, B., Hargreaves, C., Cusworth, L., Broadhurst, K., North, L., Griffiths L., Doebler, S., Akbari, A., Farr, I. a Cowley, L. (2022). *What do we know about ethnicity in the family justice system in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. <https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/what-do-we-know-about-ethnicity-in-the-family-justice-system-in-england>
- Broadhurst, K., Cusworth, L., Harwin, J., Alrouh, B., Bedston, S., Trinder, L., Jones, K., Ford, D. a Griffiths, L. (2021). Scaling up research on family justice using large-scale administrative data: an invitation to the socio-legal community. *Journal of Social Welfare and Family Law*, 43(3), 237–255. <https://doi.org/10.1080/09649069.2021.1953856>
- Brown, G. K. a Langer, A. (2010). Conceptualizing and measuring ethnicity. *Oxford Development Studies*, 38(4), 411–436. <https://doi.org/10.1080/13600818.2010.525629>
- Bywaters, P., Kwhali, J., Brady, G., Sparks, T. a Bos, E. (2017). Out of sight, out of mind: Ethnic inequalities in child protection and out-of-home care intervention rates. *British Journal of Social Work*, 47(7), 1884–1902. <https://doi.org/10.1093/bjsw/bcw165>
- Bywaters, P., Scourfield, J., Webb, C., Morris, K., Featherstone, B., Brady, G., Jones, C. a Sparks, T. (2019). Paradoxical evidence on ethnic inequities in child welfare: Towards a research agenda. *Children and Youth Services Review*, 96, 145–154. <https://doi.org/10.1016/J.CHILDYOUTH.2018.11.042>
- Connelly, R., Gayle, V. a Lambert, P. S. (2016). Ethnicity and ethnic group measures in social survey research. *Methodological Innovations*, 9. <https://doi.org/10.1177/2059799116642885>
- Cusworth, L., Bedston, S., Trinder, L., Broadhurst, K., Pattinson, B., Harwin, J., Johnson, R. D., Alrouh, B., Doubler, S., Akbari, A., Lee, A., Griffiths, L. a Ford, D. V. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. <https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-wales>
- Ford, D. V., Jones, K. H., Verplancke, J. P., Lyons, R. A., John, G., Brown, G., Brooks, C. J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9, 157. <https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157>
- Johnson, R. D., Ford, D. V., Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B., Doebler, S., Lee, A., Smart, J., Thompson, S., Trinder, L. a Griffiths, L. J. (2020). Data Resource: population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339>
- Jones, K. H., Ford, D. V., Jones, C., Dsilva, R., Thompson, S., Brooks, C. J., Heaven, M. L., Thayer, D. S., McNerney, C. L. a Lyons, R. A. (2014). A case study of the secure anonymous information linkage (SAIL) gateway: A privacy-protecting remote access system for health-related research and evaluation. *Journal of Biomedical Informatics*, 50, 196–204. <https://doi.org/10.1016/j.jbi.2014.01.003>

- Jones, K. H., Ford, D. V., Thompson, S. a Lyons, R. A. (2020). A profile of the SAIL databank on the UK secure research platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2).  
<https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134>
- Lyons, R.A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C.J., Verplancke, J., Ford, D.V., Brown, G. a Leake, K. (2009). The SAIL databank: linking multiple health and social care datasets, BMC Medical Informatics and Decision Making. BioMed Central, 9(1), t. 3. doi: 10.1186/1472-6947-9-3
- McGrath-Lone, L., Libuy, N., Etoori, D., Blackburn, R., Gilbert, R. a Harron, K. (2021). Ethnic bias in data linkage. *The Lancet Digital Health*, 3(6), e339. [https://doi.org/10.1016/S2589-7500\(21\)00081-9](https://doi.org/10.1016/S2589-7500(21)00081-9)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). (2021). *Population estimates by ethnic group and religion, England and Wales: 2019*. Adalwyd ar 26 Ebrill 2022 o:  
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/populationestimatesbyethnicgroupandreligionenglandandwales/2019>
- ONS. (2022, 21 Ebrill). *Ethnic group, national identity and religion. Measuring equality: A guide for the collection and classification of ethnic group, national identity and religion data in the UK*.  
<https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/measuringequality/ethnicgroupnationalidentityandreligion>
- Owen, C. a Statham, J. (2009). *Disproportionality in child welfare. The prevalence of black and minority ethnic children within the 'looked after' and 'children in need' populations and on child protection registers in England*. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.  
<https://doi.org/http://dera.ioe.ac.uk/11152/1/DCSF-RR124.pdf>
- Platt, L. (2007). *Poverty and ethnicity in the UK*. Policy Press.
- Rehill, J. a Roe, A. (2021). *What do we know about children in the family justice system?* Infographic. Nuffield Family Justice Observatory. <https://www.nuffieldfjo.org.uk/infographic/children-in-the-family-justice-system>

# Atodiad A

**Tabl A.1: Carfan data Cafcass Cymru**

<b>Sampl</b>	<b>2011/12</b>	<b>2012/13</b>	<b>2013/14</b>	<b>2014/15</b>	<b>2015/16</b>	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>	<b>2019/20</b>	<b>Cyfanswm</b>
Plant (cyfraith gyhoeddus)	1,250	1,260	1,210	1,350	1,460	1,780	1,880	1,960	1,860	14,010
Oedolion (cyfraith gyhoeddus)	1,540	1,710	1,670	1,940	2,200	2,720	2,640	2,670	2,450	19,540
Plant (cyfraith breifat)	3,680	4,280	4,380	3,370	3,770	4,090	4,300	4,580	4,770	37,220
Oedolion (cyfraith breifat)	5,050	6,110	6,280	4,740	5,170	5,640	6,010	6,310	6,590	51,900
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,520</b>	<b>13,360</b>	<b>13,540</b>	<b>11,400</b>	<b>12,600</b>	<b>14,230</b>	<b>14,830</b>	<b>15,520</b>	<b>15,670</b>	<b>122,670</b>

Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?



Tabl A.2: Nodweddion plant mewn achosion cyfraith gyhoeddus

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<b>N (100%)</b>	1,250	1,260	1,210	1,350	1,460	1,780	1,880	1,960	1,860
<b>Ethnigrwydd – dull cysylltu data (%)</b>									
Gwyn	92.8	93.7	91.7	91.1	90.4	89.9	87.2	87.2	84.9
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	d	d	0.8	0.7	1.4	0.6	1.1	d	0.5
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	0.8	0.8	d	1.5	0.7	0.6	1.1	1.0	1.6
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	1.6	0.8	1.7	1.5	0.7	2.2	2.7	2.0	1.6
Grŵp ethnig Arall	0.8	0.8	0.8	d	0.7	1.1	0.5	1.0	1.6
Ar goll	2.4	2.4	3.3	3.0	4.8	3.9	6.4	8.2	9.1
<b>Rhywedd (%)</b>									
Gwryw	52.0	54.0	52.1	51.9	50.7	52.2	51.1	51.5	52.2
Benyw	48.0	45.2	47.1	48.1	49.3	47.8	48.4	48.0	47.3
Ar goll	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	d	0.5
<b>Grŵp oedran (%)</b>									
<1 oed	20.0	17.5	16.5	15.6	14.4	16.3	17.6	19.4	19.4
1–4 oed	32.0	31.0	30.6	26.7	28.1	25.3	26.1	27.0	28.5
5–9 oed	22.4	29.4	27.3	31.9	29.5	29.2	27.7	25.5	27.4
10–15 oed	20.8	18.3	22.3	22.2	24.7	25.3	25.0	24.5	22.0
16–17 oed	0.8	1.6	2.5	2.2	1.4	2.8	2.1	2.0	2.2
Ar goll	0.8	d	d	d	d	d	d	d	d
<b>Rôl ar y cais (%)</b>									
Testun	100	100	100	100	100	100	100	100	100

Sylwer: Mae d yn cyfeirio at ddata a ddilewyd (lle'r oedd y cyfrifiadau crai <10)

Tabl A.3: Nodweddion oedolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<b>N (100%)</b>	1,540	1,710	1,670	1,940	2,200	2,720	2,640	2,670	2,450
<b>Ethnigrwydd – dull cysylltu data (%)</b>									
Gwyn	92.2	93.6	92.2	91.2	91.4	90.1	90.2	90.6	90.6
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	0.6	0.6	c	0.5	0.9	1.1	1.1	0.7	0.4
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	1.3	0.6	0.6	1.0	0.9	1.1	1.1	0.7	1.2
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	d	0.6	0.6	1.0	0.9	0.7	0.8	0.7	0.8
Grŵp ethnig Arall	d	d	0.6	d	0.5	0.7	0.8	0.4	0.8
Ar goll	5.2	4.1	4.8	5.2	5.0	5.5	5.3	5.6	5.3
<b>Rhywedd (%)</b>									
Gwryw	46.1	46.2	46.1	46.4	45.0	44.9	44.7	45.7	45.3
Benyw	53.9	53.2	53.9	53.6	54.5	54.4	54.5	52.8	53.1
Ar goll	0.0	0.0	0.0	0.0	d	0.4	0.4	1.1	1.2
<b>Grŵp oedran (%)</b>									
<20 oed	7.1	8.2	6.6	6.2	4.5	5.1	6.1	3.7	3.3
20–24 oed	20.1	19.9	17.4	16.5	15.0	15.4	15.2	15.7	15.1
25–29 oed	20.1	21.6	21.6	19.1	19.1	18.0	17.8	19.1	17.6
30–34 oed	16.9	17.0	18.0	19.6	20.0	18.0	19.3	19.5	20.8
35–39 oed	12.3	11.7	13.2	13.4	13.6	14.3	14.8	15.4	16.7
40–44 oed	9.7	8.2	9.0	9.8	9.1	9.2	9.5	8.6	8.6
45+ oed	10.4	10.5	10.8	12.4	14.5	14.7	13.6	14.6	14.3
Ar goll	1.3	1.8	1.2	1.0	2.7	3.7	2.7	2.2	2.4
<b>Rôl ar y cais (%)</b>									
Ymgeisydd	11.7	10.5	9.6	8.8	9.5	8.5	8.7	10.5	13.5
Ymatebwr	78.6	78.9	81.4	83.0	80.0	80.9	81.4	79.8	79.6
Arall	9.1	9.9	9.0	7.7	10.0	10.3	9.1	9.4	6.1

Sylwer: Mae d yn cyfeirio at ddata a ddilëwyd (lle'r oedd y cyfrifiadau crai <10)

Tabl A.4: Nodweddion plant mewn achosion cyfraith breifat

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<b>N (100%)</b>	3,680	4,280	4,380	3,370	3,770	4,090	4,300	4,580	4,770
<b>Ethnigrwydd – dull cysylltu data (%)</b>									
Gwyn	93.8	93.2	92.2	89.6	88.9	88.5	86.5	85.8	84.5
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	0.3	0.5	0.2	0.3	0.3	0.5	0.7	0.4	0.4
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	0.8	0.7	1.1	1.2	1.6	1.2	1.4	1.1	1.3
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	1.6	2.1	1.8	2.4	2.7	2.7	2.8	2.4	2.3
Grŵp ethnig Arall	0.3	0.5	0.9	0.6	0.8	0.7	0.7	0.9	0.6
Ar goll	2.4	2.8	3.2	4.7	5.0	5.6	7.4	9.0	10.13
<b>Rhywedd (%)</b>									
Gwryw	51.1	50.5	50.2	50.1	50.7	51.3	50.2	50.9	48.6
Benyw	48.6	49.5	49.5	49.6	49.1	48.4	49.8	47.4	50.1
Ar goll	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.5	0.8
<b>Grŵp oedran (%)</b>									
<1 oed	5.2	5.6	5.3	5.0	4.5	4.4	5.3	4.8	4.2
1–4 oed	36.1	37.4	34.7	33.8	33.2	32.5	30.5	30.1	28.9
5–9 oed	36.7	37.1	40.0	40.4	41.4	41.1	42.1	41.3	42.3
10–15 oed	20.9	18.5	18.7	19.6	20.4	20.5	20.9	22.5	23.3
16–17 oed	0.5	0.7	0.7	0.9	0.3	0.7	0.7	0.7	0.8
Ar goll	d	d	d	d	d	d	d	d	d
<b>Rôl ar y cais (%)</b>									
Testun	100	100	100	100	100	100	100	100	100

Sylwer: Mae d yn cyfeirio at ddata a ddilewyd (lle'r oedd y cyfrifiadau orai <10)

Tabl A.5: Nodweddion oedolion mewn achosion cyfraith breifat

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<b>N (100%)</b>	5,050	6,110	6,280	4,740	5,170	5,640	6,010	6,310	6,590
<b>Ethnigrwydd – dull cysylltu data (%)</b>									
Gwyn	90.1	89.4	88.9	88.0	88.0	87.9	87.2	88.0	87.1
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	0.6	0.7	0.6	0.6	0.6	0.9	1.0	1.0	0.9
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	0.6	0.8	1.1	1.7	1.5	1.8	1.7	1.3	1.2
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	0.6	0.8	0.8	0.8	1.0	1.1	1.2	1.1	1.1
Grŵp ethnig Arall	0.2	0.5	0.5	0.6	0.8	0.9	1.0	0.8	0.8
Ar goll	7.1	7.7	7.6	7.8	7.7	7.3	7.8	7.4	8.6
<b>Rhywedd (%)</b>									
Gwryw	47.9	47.6	47.8	47.7	47.6	47.9	47.9	46.9	47.2
Benyw	51.9	52.4	52.1	52.1	52.2	52.0	51.6	51.7	51.4
Ar goll	d	d	0.0	0.0	d	d	0.3	1.3	1.2
<b>Grŵp oedran (%)</b>									
<20 oed	2.8	2.8	2.2	1.5	1.4	0.9	0.8	0.8	0.5
20–24 oed	15.2	15.1	13.2	12.2	9.3	10.3	9.5	9.0	8.5
25–29 oed	18.4	20.3	21.0	20.5	20.5	20.9	21.0	20.3	19.0
30–34 oed	19.0	19.0	19.6	20.5	20.5	22.0	22.5	22.8	24.0
35–39 oed	17.2	15.7	14.8	16.7	18.0	17.2	18.6	19.2	19.7
40–44 oed	12.5	11.5	12.7	12.9	13.7	12.2	12.1	12.4	12.6
45+ oed	14.1	15.2	15.8	15.2	15.1	15.1	14.8	14.4	14.7
Ar goll	d	0.2	0.2	d	1.4	0.9	0.3	0.6	0.6
<b>Rôl ar y cais (%)</b>									
Ymgeisydd	52.1	50.6	50.5	49.2	48.9	48.9	48.4	48.0	47.8
Ymatebwr	47.1	48.1	47.9	48.5	48.7	48.4	49.1	49.4	49.3
Arall	0.4	1.1	1.3	1.9	2.1	2.5	2.3	2.2	2.6

Sylwer: Mae d yn cyfeirio at ddata a ddilewyd (lle'r oedd y cyfrifiadau crai <10)

Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?

**Tabl A.6: Ethnigrwydd unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (2017/18 hyd 2019/20), yng nghyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon 2019 (Cymru)**

Ethnigrwydd	Cyfraith gyhoeddus (%)	Cyfraith breifat (%)	Cyfrifiad 2011 (%)	Amcangyfrifon 2019 (%)
	[N = 10,719]	[N = 25,486]	[N = 3,063,456]	[N = 3,152,900]
Gwyn	95.4	94.8	95.6	94.8
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	0.9	1.0	0.6	1.0
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	1.3	1.5	2.3	2.4
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	1.5	1.9	1.0	0.9
Grŵp ethnig Arall	1.0	0.9	0.5	0.9

**Tabl A.7: Cyfradd yr unigolion mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (2017/18 hyd 2019/20) fesul 10,000 o'r boblogaeth (cyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon 2019 (Cymru))**

Ethnigrwydd	Cyfraith gyhoeddus (fesul 10,000)		Cyfraith breifat (fesul 10,000)	
	Cyfrifiad 2011	Amcangyfrifon 2019	Cyfrifiad 2011	Amcangyfrifon 2019
Gwyn	35	34	82	81
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	50	31	136	83
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	19	17	54	49
Grwpiau Cymysg neu aml-ethnig	50	59	155	182
Grŵp ethnig Arall	71	37	143	75

Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (ACT Nuffield) yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Trwy gwmpasu cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae ACT Nuffield yn darparu dadansoddiadau ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn llysoedd teulu.

Sefydlwyd ACT Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sydd â chenhadaeth i wella lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny ym meysydd addysg, lles a chyfiawnder yn bennaf. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

## Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, gyda Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid annatod. Caiff ei hariannu gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

## Banc Data SAIL

Mae data Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, Abertawe, y DU, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol i Gymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio data SAIL gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: [www.saildatabank.com/application-process](http://www.saildatabank.com/application-process)

Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r prosiect hwn gan IGRP dan brosiect SAIL 0929.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2022  
100 St John St, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestrdig 206601  
[nuffieldfjo.org.uk](http://nuffieldfjo.org.uk) | [@NuffieldFound](https://www.nuffieldfoundation.org)